

**LLWYBR Y RHYFEL  
BYD CYNTAF  
SAIN FFAGAN**

**Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng,  
A Duw ar drai ar orwel pell**

**'Rhyfel' gan Ellis Evans (Hedd Wyn)**

**War broke: and now the Winter of the world  
With perishing great darkness closes in.**

**'1914' gan Wilfred Owen**

# AMGUEDDFA CYMRU

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2018 gan Amgueddfa Cymru  
fel rhan o raglen Cymru'n Cofio 1914-1918.

© Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Rhif Elusen Cofrestredig: 525774

<https://amgueddfa.cymru>

Dylunio a darluniau gan Frank Duffy [www.frankduffy.co.uk](http://www.frankduffy.co.uk)

Argraffwyd gan [www.davidrichardsukltd.com](http://www.davidrichardsukltd.com)


Mae ein rhaglen Cymru'n Cofio 1914-1918 yn derbyn cefnogaeth hael gan:



# Cyflwyniad

Cafodd y Rhyfel Byd Cyntaf effaith aruthrol ar bobl Cymru – gartref ac ar dir tramor. Bu farw 32,000, gan adael cenhedlaeth o wragedd gweddw a phlant heb dadau. Collodd miloedd o bobl ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion.

Mae'r llyfryn hwn yn edrych ar effaith y brwydro trwy gyfrwng rhai o adeiladau hanesyddol yr Amgueddfa. Beth oedd effaith y rhyfel ar y bobl oedd yn byw, gweithio a chymdeithasu yn yr adeiladau hyn? O gartrefi i neuaddau, o bentrefi cefn gwlad i drefi diwydiannol, ac o werinwyr i uchelwyr, cafodd y Rhyfel Byd Cyntaf effaith ddofn ar deuluoedd a chymunedau ym mhob cwr o Gymru.



Sefydliad y Gweithwyr Oakdale

Cofeb Ryfel Trecelyn

Tafarn y Vulcan

Siop Gwalia

Ffermdy Llwyn-yr-eos





**MYNEDFA'R  
AMGUEDDFA**



**1**

**Castell Sain Ffagan**



# Castell Sain Ffagan

Yn ystod y rhyfel, roedd Castell Sain Ffagan yn gartref i larll Taf Plymouth a'i deulu. Ym 1916 rhoddodd yr larll ganiatâd i'r Groes Goch Brydeinig ddefnyddio pafiliwn yng ngerddi'r Castell fel ysbyty cynorthwyol 70 gwely. Roedd milwyr wedi'u clwyfo ar faes y gad yn dod yma i wella. Wrth i fwy o filwyr gael eu clwyfo, cafodd nifer o blastai ac adeiladau cyhoeddus eraill eu troi'n ysbytai dros dro. Agorwyd dros 100 yng Nghymru.



**Roedd Elizabeth Radcliffe o bentref Sain Ffagan yn gwirfoddoli fel nyrs yn yr ysbyty, 1916-18. Llun o gasgliad preifat.**

**C**âi cleifion Ysbyty VAD y Groes Goch, Sain Ffagan eu nyrsio gan fenywod lleol oedd wedi'u hyfforddi fel rhan o'r cynllun Mintai Gymorth Gwirfoddol (VAD). Roedd rhaid i nyrs VAD fod rhwng 23 a 38 oed. Yn ogystal â glanhau a choginio, roeddent hefyd yn derbyn hyfforddiant nyrsio sylfaenol. Roedd rhai o nyrsys Sain Ffagan hefyd yn forwynion i'r teulu Plymouth yn y Castell.



Roedd y Corporal Walter Stinson yn glaf yn yr ysbyty ym 1917-18. Roedd yn dod o Battersea, Llundain ac yn gweithio fel paentiwr ac addurnwr. Ymunodd â'r London Battalion ym 1915 a bu'n ymladd yn Ffrainc. Tra'n gwella yn Sain Ffagan

bu'n gwneud gemwaith gyda darnau o bapur a gleiniau lliwgar. Aeth Walter a chleifion eraill ati i werthu'r gemwaith i godi arian ar gyfer carcharorion rhyfel.

Fel cymaint o deuluoedd eraill, cafodd y teulu

**(uchod) Bwcl a wnaed gan Walter Stinson yn Ysbyty'r Groes Goch, Sain Ffagan, 1917-18.**

**(chwith) Walter Stinson (yn sefyll ar y dde) yn yr Ardd Eidalaidd, rhwng Rhagfyr 1917 ac Ebrill 1918.**

**(chwith pellaf) Milwyr a nyrsys yn yr Ardd Eidalaidd, Castell Sain Ffagan, 1916.**

Plymouth ei siglo gan y rhyfel. Ar 26 Awst 1914 bu farw Archer, y mab ieuengaf, ar faes y gad. Roedd yn Is-gapten gyda Gwarchodlu Coldstream. Roedd y teulu yma yng Nghastell Sain Ffagan pan ddaeth y newyddion.



# Fferm Llwyn-yr-eos


Fferm wedi'i gosod i denantiaid oedd Llwyn-yr-eos ar ystâd Plymouth yn Sain Ffagan. Roedd ffermio er mwyn cynhyrchu bwyd i'r genedl yn rhan allweddol o ymdrech y rhyfel.



**Gladys May Evans yn lifrai Byddin Dir y Menywod. Yn wreiddiol o Bort Talbot, bu'n gweithio ar ystâd Plymouth yn Sain Ffagan yn ystod y rhyfel.**

**A**r ddechrau'r rhyfel, roedd Prydain yn dibynnu'n drwm ar fewnforio bwyd, yn arbennig gwenith i wneud bara. Daeth prinder bwyd i'r amlwg ym 1916 wrth i longau tanfor yr Almaenwyr suddo llongau nwyddau oedd yn cludo bwyd i Brydain.

Pan ddaeth Lloyd George yn Brif Weinidog yn Rhagfyr 1916, gofynnodd i ffermwyr gynhyrchu mwy o fwyd, a bu'n rhaid aredig mwy o dir er mwyn tyfu cynyduau ychwanegol.





**Ar y Tir: Aredig gan Archibald Standish Hartrick, 1917.**

Gan fod cymaint o weithwyr fferm yn y fyddin, sefydlwyd Byddin Dir y Menywod ym 1917. Bu dros 250,000 yn gwirfoddoli, ond ni fu cynnydd mawr o ran faint o fwyd a gynhyrchwyd.



**Byddin Dir y Menywod yng nghanol y cynhaeaf yd ar fferm Gelli Cadwgan, Llanfair-ym-Muallt.**

# Siop Gwalia



Roedd Siop Gwalia yn eiddo i'r Henadur William Llewellyn ac yn gwasanaethu cymuned Cwm Ogwr. Erbyn 1916, roedd Siop Gwalia yn cynnwys becws ac adrannau nwyddau haearn, groser, dillad dynion, bwyd anifeiliaid a fferyllfa.



**Y**n Hydref 1914 fe ganiataodd William Llewellyn i'r Swyddfa Ryfel ddefnyddio gofod o fewn yr adeilad i sefydlu swyddfa recriwtio.

Ymrestrodd nifer helaeth o'i staff, gan gynnwys Evan James Evans. Ymunodd â'r Glamorgan Yeomanry ym mis Hydref 1914. Bu farw ar 19 Mawrth 1917 o anafiadau

a dderbyniodd ar faes y gad. Cafodd ei gladdu ym Macedonia.

Roedd cyflenwadau bwyd yn broblem yn ystod y rhyfel. Gwaethygodd y sefyllfa ym 1917 wrth i 417 o longau cludo bwyd gael eu suddo ym mis Ebrill.



Evan James Evans.

Cyflwynwyd dogni swyddogol ym 1918. Cafodd siwgr ei ddogni ym mis Ionawr, ac erbyn diwedd Ebrill roedd cig, menyng,

caws a margarin wedi'u dogni. Roedd rhaid i bawb gofrestru â chigydd a groser a derbyniodd pawb gardiau dogni.

5 JUL 1918

MINISTRY OF FOOD.

Serial  
No.

Wa  
20

Nº 20571

# NATIONAL RATION BOOK (B).

## INSTRUCTIONS.

[*Read carefully.*]

1. The person named as the holder of this Ration Book on the Reference Leaf (page 6) (Green) must sign his name in the space provided on that leaf, and must copy in the space provided for it on the Reference Leaf the Serial Number appearing at the head of this cover.
2. The Book must be registered at once for the purchase of **Sugar, Fats (i.e. Butter, Margarine and Lard), Butcher's Meat and Bacon.** To register for Sugar the holder must sign his name and enter his address and date of signing on the Sugar Counterfoil (Yellow), and take the book to the sugar retailer. The retailer will enter *his* name and address in the proper space (numbered 1) on the inside of the cover and on the back of the counterfoil, and will detach and keep the counterfoil. Registration for other foods will be effected in the same way, by use of the counterfoils for Fats (Blue), Butcher's Meat (Red), and Bacon (Red).
3. Persons living in hotels, boarding houses, hostels, schools and similar establishments should not register their Ration Books until they leave the establishment.
4. The Ration Book may be used only by or on behalf of the holder, to buy rationed food for him or members of the same household or guests sharing common meals. It may not be used to obtain rationed food for others.
5. The Ration Book may only be used while the holder is living in Great Britain, is not drawing Government rations, and is not in an institution (hospital, asylum, workhouse, &c.). If he dies or joins the forces, or enters an institution, the book must be given up to the proper authority, that is to say, the Registrar of Deaths, the naval, military or air force authority, or the head of the institution, as the case may be. If the holder leaves Great Britain for a period exceeding four weeks the book must

IF FOUND, RETURN TO ANY FOOD OFFICE.

(gyferbyn, uchod) Siop  
Gwalia, 1914.

(dde) Roedd siwgr yn  
brin iawn yn ystod y  
rhyfel. Mrs Ruth Davies  
gyda staff a chwsmeriaid  
o flaen Malvern Stores,  
Llangamarch, tua 1916.



# Tafarn y Vulcan



Ail-godi'r Vulcan yw ein project diweddaraf. Bydd y dafarn yn agor ei drysau yn 2022. Adeiladwyd y Vulcan ar Adam Street, Caerdydd ym 1853 ar gyfer cymuned Newtown – ardal sydd wedi diflannu erbyn heddiw. Roedd hi'n ardal Wyddelig, gyda llawer wedi symud i Gaerdydd i ddianc rhag newyn. Roedd nifer o Wyddelod yn lletya yn y Vulcan, ac yn gweithio ar y dociau.

**S**aith stryd oedd i gymuned fechan Newtown, ond roedd naw tafarn yno. Gan fod y dociau cyfagos yn safle strategol pwysig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, cafodd oriau agor yr holl dafarndai eu cwtogi.

**“Drink is doing us more damage in the war than all the German submarines put together”**

**– David Lloyd George**

Yn ystod y rhyfel, roedd Ellen Agetha Baker (MacCarthy gynt) yn un o naw o blant oedd yn byw yn y Vulcan. Roeddent yn cysgu yn y llofftydd, ac yn bwyta lawr grisiau rhwng oriau agor y dafarn.



Roedd atgofion byw Ellen yn gymorth mawr i ni wrth fynd ati i ddehongli bywyd y dafarn. Bu farw ewythr Ellen, Daniel MacCarthy, yn Ypres ym 1918, yn 26 oed. Bob blwyddyn, ar ddyddiad ei farwolaeth, câi llun ohono

ei hongian uwchben y lle tân yn yr Ystafell Ysmygu - byddwn yn parhau â'r traddodiad hwn yn Sain Ffagan.



**Daniel T. MacCarthy**

# Sefydliad y Gweithwyr Oakdale

Ar un adeg roedd sefydliadau'r gweithwyr, neu'r 'stiwts' ar lafar gwlad, yn gyffredin yn nhrefi a phentrefi diwydiannol Cymru. Cawsant eu hadeiladu gan lowyr a gweithwyr eraill, gyda'u harian eu hunain, er mwyn darparu addysg a hamdden i'w hunain a'u teuluoedd. Adeiladwyd yr enghraifft hon yn Oakdale ym 1916 - yng nghanol y rhyfel - ar gost o £6,463. Cynhaliwyd seremoni agoriadol ar 10 Medi 1917.



**Dathliadau'r Cadoediad yn Neuadd a Sefydliad Gweithwyr Abercynon, 1918. Trefnwyd y te parti i groesawu'r milwyr adref.**

**A**r ddiwedd y rhyfel, sefydlwyd pwyllgorau ledled Cymru i groesawu dynion lleol yn ôl o faes y gad. Daeth neuaddau pentref a stiwtys yn ganolbwynt i ddathliadau'r Cadoediad. Cynhaliwyd dawns i ddathlu diwedd y rhyfel yn Sefydliad Oakdale ym 1919. Ychydig a wyddom am y digwyddiad, ond mae

cofnodion y pwyllgor yn crybwyll fod un person yn cael ei amau o fynd â diod feddwol i'r ddawns.

Bu'r stiwt yn rhan bwysig o gymuned Oakdale am ddegawdau wedi'r rhyfel. Ym mlynnyddoedd caled y 1930au, sefydlwyd cronfales i helpu teuluoedd oedd yn cael trafferth ymdopi.





**Y Tywysog Albert yn ymweld â Sefydliad Oakdale, 16 Ionawr 1920. Roedd yn Llywydd y Gymdeithas Les Ddiwydiannol.**



**Baner yn chwifio yn Gendros, Abertawe, i ddathlu'r Cadoediad, 1918.**



**Rhai o weithwyr Glofa Oakdale, 1910au.**



# Cofeb Ryfel Trecelyn

Ymladdodd tua 272,000 o Gymry yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a bu farw 32,000. Cafwyd colledion ym mhob pentref, tref a phlwyf, bron. Adeiladwyd cofebau rhyfel gan gynghorau lleol a phwyllgorau i goffáu'r meirwon ac i fod yn ganolbwynt i alar y gymuned. Mae o leiaf 3,000 o gofebau rhyfel yng Nghymru.



**A**deiladwyd y gofeb hon o Drecelyn ym 1936 i goffáu 79 o drigolion yr ardal fu farw yn y rhyfel – gan gynnwys pum set o frodyr.

Mae eu henwau i'w gweld ar y plac efydd ar ochr chwith y gofeb, gydag arysgrif sy'n dweud: *'At the going down of the sun and in the*

**Ni chânt hwy heneiddio, fel yr heneiddiwn ni sydd ar ôl:  
Ni chaiff henaint eu blino, na'r blynyddoedd eu condemnio.  
Pan fachluda'r haul, a phan dyr y wawr  
Fe gofiwn ni amdanynt.**

– Cyfieithiad o 'The Fallen' gan Robert Lawrence Binyon, 1914



*morning we shall remember them'. Roedd dros hanner y dynion ar y rhestr yn perthyn i Gyffinwyr De Cymru, a'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio yng Nglofeydd Celynen cyn y rhyfel.*

Symudwyd Cofeb Ryfel Trecelyn i'r Amgueddfa ym 1995. Cynhelir gwasanaeth coffa yma bob blwyddyn ar Sul y Cofio i goffáu pawb a fu farw mewn rhyfeloedd.



**Roedd Bernard Morris o Drecelyn yn drydanwr cynorthwyol. Cafodd ei ladd yn Arras, Ffrainc ar 23 Ebrill 1917.**



**Ymrestrodd Arthur Edward Harvey ym mis Medi 1914. Bu farw ar 3 Mai 1917, yn 28 oed.**